Ysgol Gyfun Aberaeron

Gorffennaf /July 2020



Gair gan y Prifathro

Annwyl ddisgybl,

Fe wnaeth disgybl ofyn i mi nôl ar ddiwedd Mis Mawrth, yn syth ar ôl mynd i 'lockdown' – "a fyddwn ni'n cael gwyliau Haf eleni?" "Byddwch" oedd yr ateb "ond dim eto!" Erbyn heddiw, mae gwyliau'r Haf wedi cyrraedd. 6 wythnos adref ac i ffwrdd o'r Ysgol. Fel arfer, fyddai hyn yn hir ddisgwyliedig ac yn deimlad braf. Ydy'r teimlad yr un fath eleni?

O'r 39 wythnos o Ysgol yn 2019/2020, mae adeilad yr Ysgol wedi bod ar gau am 11 ohonynt a'r 3 olaf wedi bod yn wahanol iawn. Rwy'n cydymdeimlo gyda blynyddoedd 11 a 13 sydd wedi colli ychydig o'ch cyfle i 'brofi beth allwch chi wneud' yn arholiadau'r Haf. Ond serch hynny, da chi, byddwch chi wedi haeddu'r graddau byddwch chi'n casglu yng nghanol mis Awst - nid yw eich gwaith wedi mynd i wastraff a bydd eich ymdrechion yn cael eu hadlewyrchu yn eich canlyniadau haeddiannol.

Rydych chi Bl.11 wedi colli eich cyfle i gael 'Prom' hefyd a Bl.13 i ddathlu 7 mlynedd yn yr ysgol yn ystod y cinio diwedd blwyddyn. Ond mae eich cyfnod ysgol yn fwy na'r un p'nawn hwnnw ac mewn blynyddoedd i ddod, byddwch yn cofio straeon eraill am eich gyrfa ysgol. Straeon o dynnu coes a drygioni, o gyfeillgarwch ac efallai o athrawon a staff sydd wedi eich ysbrydoli neu fod yn gefn i chi. Er cystal stori yw gyrru i'r ysgol ac i'r 'Prom' mewn tractor / lori / car rasio / beic a phwy a ŵyr beth arall, bydd straeon eraill i'w cael; fel y stori yna lle wnaeth ysgol orffen yng nghanol Mis Mawrth ac roedd yn rhaid i chi aros gartref a gweld neb am fisoedd.

I bawb arall, mae'r cyfnod yma wedi bod yn un o 'ddysgu ar-lein'. Rydych yn gyfarwydd erbyn hyn gyda Hwb a Teams, Flipgrid, Screen Casts a phob peth arall cysylltiedig. Mae'n gallu bod yn rhwystredig iawn pan mae'r we yn araf neu'r cyfrifiadur yn 'crasho' ond ar y llaw arall mae wedi bod yn fendith fawr yn ystod y cyfnod Cofid-19 ac yn ffordd o weithio sydd yma i aros.

Mwynhewch wyliau'r Haf a byddwch ddiogel. Edrychaf ymlaen at weld y mwyafrif ohonoch ym Mis Medi. I'r rheina ohonoch sy'n symud ymlaen - pob lwc a chofiwch eich bod yn dod yn ôl i'r noson wobrwyo flynyddol yn 2021.

Mr Owain Jones



A word from the Headmaster

Dear Pupil,

A pupil asked me back at the end of March, immediately after going to lockdown - 'will we be having a Summer holiday this year?' 'Yes' was the answer, ‘but not yet!' Well, the summer holidays have arrived. 6 weeks home and away from School. Usually this would be long-awaited and not having to get up early to travel to school would be a novelty. Is the feeling the same this year?

Of the 39 weeks of School in 2019/2020, the School building has been closed for 11 of them and the last 3 have been very different. I sympathize with years 11 and 13 who have lost a bit of your chance to 'prove what you can do' in the Summer exams. But nevertheless, you will have earnt the grades you collect in mid-August - your work has not gone to waste and your efforts will be reflected in your well-deserved results.

Year 11 have also missed your opportunity to have a 'Prom' and Year 13 to celebrate 7 years at school during the end of year dinner. But your time at school is more than that one afternoon and in years to come, you will remember other stories about your school years. Tales of mischief, of friendship and perhaps of teachers and staff who have inspired or supported you. As good a story as it is to drive to school and to the 'Prom' in a tractor / truck / racing car / bike and who knows what else, there will be other stories to be told; like that story where school finished in mid-March and you had to stay home and alone with only your immediate family for months.

This has been a period of 'online learning'. You are now familiar with Hwb and Teams, Flipgrid, Screen Casts and all other related apps and programmes. I know it has been very frustrating when the Internet was slow or the computer 'crashed'. However, we have been very fortunate to have been able to continue to have the opportunity to work from home during the Covid-19 lockdown; this may not have been possible only a few years ago.

To all pupils and to school staff, enjoy the summer holidays and be safe. I look forward to seeing most of you in September. For those of you leaving school to begin new challenges - good luck and remember to come back and see us at the annual awards night in 2021.

Mr Owain Jones

Ffarwelio gyda staff/ Farewell to staff

Byddwn fel ysgol yn ffarwelio gyda rhai aelodau o staff ar ddiwedd y tymor.

We as a school will bid farewell to some members of staff at the end of the term.

Mrs Anwen Davies

Mae Mrs Davies yn gyn-ddisgybl ac yn gyn-Brif Ferch yn Ysgol Gyfun Aberaeron. Mae wedi bod yn athrawes yn yr ysgol ers 23 o flynyddoedd ac yn aelod o'r Uwch Dim Arwain ers 10 mlynedd. Diolch i chi Mrs Davies am eich holl waith yn cefnogi disgyblion, holl staff a chymuned Ysgol Gyfun Aberaeron. Pob dymuniad da i chi ar gyfer y dyfodol.

Mrs Anwen Davies is a former pupil and Head Girl of Ysgol Gyfun Aberaeron. She has taught Chemistry in the school for the past 23 years and has been a member of the Leadersip Team for the past 10 years. Thank you Mrs Davies for your unwavering and untiring work for all pupils, staff and the community during the past years. All the best for the future!

Mrs Mary Lewis

Mae Mrs Lewis hefyd yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Gyfun Aberaeron. Mae'n Gynorthwywraig Dosbarth yn yr ysgol ers 25 o flynyddoedd ac ar hyd yr amser mae wedi cefnogi nifer fawr o ddisgyblion. Diolch i chi Mrs Lewis am weithio'n ddiwyd ac yn hapus ar hyd yr amser. Pob lwc i chi i'r dyfodol!

Mrs Lewis is also a former pupil of the school and has worked as a Teaching Assistant for the last 25 years. During that time she has supported a large number of students. Thank you Mrs Lewis for working so diligently and happy throughout your time in YGA. Good luck for the future!

MABOLGAMPAU RHITHIOL YSGOL GYFUN ABERAERON VIRTUAL SPORTS DAY

Dros gyfnod o bump wythnos ym mis Mehefin a Gorffennaf eleni, cynhaliwyd un cystadleuaeth yr wythnos fel rhan o Fabolgampau Rhithiol Ysgol Gyfun Aberaeron. Dyma gasgliad o luniau o'r disgyblion a'r staff yn cymryd rhan, yn ogystal â chanlyniadau terfynol y Mabolgampau. Llongyfarchiadau i bawb, yn enwedig Portland!

The School recently held a Virtual Sports Day over the course of five weeks, where one competition was released every week. Here are a few photos of the staff and pupils participating, as well as the overall results for Ysgol Gyfun Aberaeron's School Sports 2020. Congratulations all, especially Portland!

Athletwraig orau Blwyddyn 7/ Year 7 Girls' most successful athlete: Ellen Davies, Tanyfron
Athletwyr gorau Blwyddyn 7/ Year 7 Boys' most successful athletes: Krzysztof Dolniak, Tanyfron a Dion Lloyd, Tyglyn
Athletwraig orau Blwyddyn 8/ Year 8 Girls' most successful athlete: Fallon Haird, Portland
Athletwyr gorau Blwyddyn 8/ Year 8 Boys' most successful athletes: Llyr Jones, Tyglyn a Rhys Hagen, Portland
Athletwraig orau Blwyddyn 9/ Year 9 Girls' most successful athlete: Cordelia Walker, Tyglyn
Athletwr gorau Blwyddyn 9/ Year 9 Boys' most successful athlete: Ifan Rishko, Tyglyn
Yr athletwraig hŷn orau/ The Senior Girls' most successful athlete: Shannon Haird, Portland
Yr athletwr hŷn gorau/ The Senior Boys' most successful athlete: James Scott, Portland

Yr athletwraig gyda'r nifer uchaf o bwyntiau/ Best female athlete:
Fallon Haird, Portland

Yr athletwr gyda'r nifer uchaf o bwyntiau/ Best male athlete:
James Scott, Portland

Record 1 – Naid Uchel o'r Unfan/ Standing High Jump
Merch: Kaitlyn Gwynne-Jones, Portland – Bl. 7 (51cm)
Bachgen: Oliver Jones, Tyglyn – Bl. 10 (63cm)



Record 2 – Neidio Cyflym/ Speed Bounce
Merch: Niamh Duggan, Tanyfron - Bl. 10 (36)
Bachgen: Rhun Crimes, Tanyfron – Bl. 12 ac Ifan Rishko, Tyglyn, Bl. 9 (37)

Record 3 – Gwrthwasgiadau/ Press Ups
Merch: Eilidh Jones, Tyglyn – Bl. 7 (24)
Bachgen: Ifan Rishko, Tyglyn – Bl. 9 (31)

Record 4 – Naid Hir o'r Unfan/ Standing Long Jump
Merch: Martha Vobe, Tyglyn – Bl. 7 (1.99m)
Bachgen: Gruffudd Crimes, Tanyfron – Bl. 9 (2.36m)

Record 5 – Pont/ Bridge
Merch: Lucy Beddowes, Tyglyn – Bl. 10 (73cm)
Bachgen: Ifan Rishko, Tyglyn – Bl. 9 (80cm)

Canlyniadau Terfynol/ Overall Results

1af/1st - PORTLAND: 79
2ail/2nd - TYGLYN: 73
3ydd/3rd - TANYFRON: 49

Cyfweliad gyda Mrs Anwen Davies

Ar ôl cyfnod hir yn yr ysgol mae'r amser wedi dod I ffarwelio gyda Mrs Davies. Aethom ati i holi ambell gwestiwn iddi.

Ydych chi'n cofio eich diwrnod cyntaf fel athrawes yn Ysgol Gyfun Aberaeron?

Ydw. Dwi'n cofio rhannu car gyda Dr Betsy Snow (ei diwrnod cyntaf hi yn yr ysgol hefyd) a pharcio lan ar iard dop yr ysgol a theimlo'n nerfus iawn. Dwi'n cofio meddwl bod pawb yn pipo arnom ni. Wedyn cael sioc o weld yr ysgol fel safle adeiladu- roedd fy labordy i, a phawb arall yn yr adran Wyddoniaeth, mewn caban 'mobile.'

Hoff drip ysgol?

Nol yn 1986, roeddwn newydd orffen fy Lefel O (cyfwerth â TGAU) ac es i gyda'r ysgol i Fenis yn yr Eidal. Dyma drip cyntaf Mr Richard Griffiths a daeth y Prifathro ar y pryd, Mr Dai Thomas (neu Twm Chem), gyda ni hefyd. Roedd hi'n gyffrous iawn i gael aros mewn gwesty yng nghanol Fenis! Atgofion anhygoel! Mrs Davies Pennaeth Bioleg yn cwympo mas o'r gondola yn un atgof sy'n aros yn y cof

Hoff ginio ysgol?

Cinio cig eidion neu gawl

Beth yw'r peth gwaethaf sydd wedi digwydd yn y lab?

Arbrawf blwyddyn 13 yn Lab 2 tua'r flwyddyn 2000. Pan oeddwn yn sefyll ger un grŵp ac yn dweud wrthynt i leihau gwres y Bunsen Burner achos fy mod i'n gweld nwy gwyn yn dod mas o'r cyfarpar, ffrwydrodd y gwydr gyda'r asid poeth gan dasgu lan i'r nenfwd a chwistrellu dros y disgyblion a chot (newydd!!) un ferch!! Roedd yn rhaid rhoi digon o ddŵr oer dros y disgyblion ond roedd tyllau mân yng nghot y ferch. Roedd pawb yn iawn a gwnes i gynnig talu am got newydd i'r ferch. O ganlyniad i hyn cafodd yr adran Wyddoniaeth arian i brynu cotiau labordy a mantellau gwresogi trydan am y tro cyntaf (a bachau er mwyn hongian y cotiau!)

Beth fyddwch chi'n gweld eisiau mwyaf?

Byddaf yn gweld eisiau'r disgyblion a'r staff ond yn bennaf gweld eisiau tystio'r cynnydd/llwyddiannau disgyblion erbyn eu bod nhw'n gadael yr ysgol. Licen i wybod beth mae pob un disgybl rwyf wedi dysgu yn gwneud erbyn hyn!

Beth ydych chi'n edrych ymlaen ato fwyaf ar ôl gorffen yn yr ysgol?

Dim codi mor fore a dim gorfod poeni am wahanol bethau e.e amserlen.

Rhannwch ffaith nad ydym yn gwybod yn barod amdanoch.

Pan oeddwn yn yr ysgol gynradd, a rhai blynyddoedd yn yr Uwchradd, fy hoff beth all-gyrsiol oedd gwersi bale lawr yn y sied sinc ger ystafelloedd newid y caeau rygbi yn y dre. Dyma sut des i adnabod Nia Bwtsh (oedd flwyddyn yn iau na fi yn yr ysgol. Tipyn o ddawnswraig!)

Pob lwc i chi Mrs Davies a diolch yn fawr am eich holl waith a'ch gofal yn ystod y blynyddoedd!

Interview with Mrs Anwen Davies

After 23 years of teaching in the school and previously as a pupil the time has come to farewell with Mrs Anwen Davies. We asked her some questions.

Do you remember your first day as a teacher in Ysgol Gyfun Aberaeron?

Yes, I remember sharing a lift with Dr Snow (it was also her first day) and parking the car up on the top yard and feeling very nervous. I remember thinking that everyone was looking at us. Then having a shock to see that the school was like a building site- all the labs were in a mobile cabin.

Favourite school trip?

Back in 1986, I had just finished my O Level exams (equivalent to GCSE) and I went with the school to Venice in Italy. This was Mr Richard Griffiths' first trip and the Headmaster, Mr Dai Thomas (or Twm Chem) came with us. We were all excited to stay in a hotel in the middle of Venice. Fantastic memories! One of the memories that stays in the mind is when Mrs Davies, Head of Biology, fell out of her gondola!

Favourite school dinner?

Beef dinner or cawl.

What's the worst thing that has happened to you in the lab?

A year 13 experiment in 2000. When I was standing next to one group I asked them to turn down the temperature of the Bunsen Burner. I then noticed white gas coming out of the equipment and suddenly the glass exploded and the acid shot up to the ceiling covering some of the pupils and a girl's new coat. We had to put lots of water over the pupils and I offered to pay for the girl's coat. Luckily everyone was fine. As a result the Science department bought new white coats for the labs and hooks to hang the coats!!!

What will you miss the most?

Not seeing pupils and staff but also not seeing the progress made by pupils. I would love to know what all the pupils that I've taught over the years are doing now.

What are you looking forward to the most after finishing school?

Not getting up so early in the morning and not having to worry about various things such as the timetable.

Share a fact with us that we don't know about you.

When I was in primary school and the early years of secondary school, I used to have ballet lessons down in the shed near the town's rugby field. This is how I got to know Nia Bwtsh (who was a year younger than me in school. She was quite a dancer!)

Good luck Mrs Davies and thank you for all your hard work and care over the years!

Edrych yn ôl ac edrych ymlaen

Aethom ati i ofyn i rai aelodau o staff yr ysgol am eu prif atgof wrth edrych yn ôl ar y Cyfnod Clo a'r hyn maent yn edrych ymlaen ato wrth ddychwelyd i'r ysgol.

Miss Bethan Williams

Prif atgof: cael yr amser i dreulio gyda theulu a mwynhau crwydro ar droed ar hyd yr ardal leol adref.

Edrych ymlaen at…..: glywed straeon y Clo Mawr gan y disgyblion a'r cyfle i gymdeithasu gydag athrawon eraill (o bell!)

Miss Sian Evans

Prif atgof: cerdded trwy Aberteifi yn nyddiau cynnar y Clo Mawr a fi oedd yr unig berson oedd yn cerdded trwy'r dre - od iawn!

Edrych ymlaen at….. - cael sgwrs gyda staff a disgyblion mewn person yn hytrach na thrwy sgrîn!

Mrs Teleri Morris-Thomas

Prif atgof: mynd nôl i ddosbarth MA3 ar ddiwedd mis Mehefin a gweld dyddiad 19/03/2020 ar y bwrdd gwyn. Hefyd rhwystredigaeth mawr gyda'r we a Hwb gyda chyflymder uwchlwytho o 100kbps! W ie! A theimlo fel 'chef' yn gweini ar bawb gyda ryseitiau gwahanol!

Edrych ymlaen at…..- weld disgyblion a chydweithwyr a chael cyflymder we derbyniol!!!!!

Mrs Ruth Humphreys

Prif atgof…… - Y peth wnes i fwynhau oedd bod amser i werthfawrogi byd natur, yn enwedig machlud yr haul. Anghofiaf i fyth y teimlad rhyfedd o fod ar y traeth ar ddiwrnod crasboeth a sylweddoli fod neb arall yno.

Edrych ymlaen at……..- Hawdd, dwi'n edrych mlaen at weld dyluniadau ffasiwn Blwyddyn 10 ac at glywed syniadau Blwyddyn 11 ar gyfer y prosiect dylunio a chreu sy'n mynd i fod yn rhan mor bwysig o'i gwaith.

Looking back and looking forward

We asked some members of staff to share their memories of the Lockdown period and asked them what they are looking forward to when returning to school.

Miss Bethan Williams

Memory: have the time to spend with family and enjoy walking around the local area at home.

Look forward to…..: hearing the pupils stories from Lockdown and the chance to socialize with other teachers again (from afar!)

Miss Sian Evans

Memory: being the only person walking through Cardigan town during the first few days of Lockdown. Very strange!

Look forward to…… - having a chat with staff and pupils in person and not through a screen!

Mrs Teleri Morris-Thomas

Memory: returning to MA3 at the end of June and seeing the date 19/03/2020 on the white board. Also a massive frustration with uploading work on Hwb with an internet speed of 100kbps! Oh yeah! Also feeling like a chef with different recipes every day!

Look forward to…..: seeing pupils and colleagues again and having fast internet speed!

Mrs Ruth Humphreys

Memory…… - The main thing that I enjoyed was appreciating nature and the world around us, especially the sunset! I'll never forget the strange feeling of being on a beach on a scorcher of a day and realising that we were the only people there.

Look forward to…. Easy, I'm looking forward to seeing year 10's fashion designs and hearing year 11's ideas for their design project that will be so important to their work next year.



Atebion ‘Pwy yw pwy?’

Answers ‘Who’s Who?’

• Yn blentyn bach 7 mlwydd oed, fe wnes i ymddangos ar raglen ‘Fe Hoffwn i’ ar y teledu – roeddwn eisiau bod yn saer coed. • Rwyf wedi chwarae gêm rygbi yn Stadiwm y Mileniwm. • Roeddwn yn arfer chwarae’r trwmped (ond ddim yn dda iawn o gwbwl).	**Mr Owain Jones**
• I have had my photo taken with Sam Smith when visiting London with my family. • I play the flute and have done my grade 5 practical and grade 5 theory exams. • I have been in a recording studio and cut my own CD.	**Mrs Jaqueline Wilson**
• Dw i wedi gwneud skydive a bungee jump……byth eto!!!	**Mrs Colleen Roberts**
• I’m related to the Film Director, Sir Alfred Hitchcock.	**Mrs Wendy Price Jones**
• Cerddais 44 milltir mewn diwrnod ar draws Cymru i godi arian i Ambiwlans Awyr Cymru.	**Mrs Meinir Jenkins**
• I played for the first ever Aberystwyth Girls Basketball team back in 1999.	**Miss Lorna Worall**
• I have walked on hot coals and dived with Tiger Sharks.	**Ms Anne Jackson**

Mwynhewch wyliau’r Haf. Fe welwn ni chi ym mis Medi!

Enjoy the Summer Holidays. We’ll see you in September!